# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 29 Hydref 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

*Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ19667) yn ôl.*

### Cyfleusterau ar gyfer Plant Hŷn a Phobl Ifanc

**C11 Mick Bates:** Beth sy'n cael ei wneud i ddarparu cyfleusterau ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc ledled Cymru? (OAQ19665)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Sefydlwyd partneriaethau pobl ifanc ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Byddant yn cynhyrchu cynlluniau i sicrhau y caiff amrywiaeth o wasanaethau eu darparu, gan gynnwys adnoddau i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn, cynhelir archwiliad o gyfleusterau presennol ynghyd â'r angen am rai pellach.

### Adeilad Newydd y Cynulliad

**C12 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw ddatblygiadau pellach mewn perthynas ag adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ19658)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyfeiriaf yr Aelod at ateb y Gweinidog Cyllid i OAQ19576 ar 23 Hydref 2002.

### 'Cynllun i Gymru 2001'

**C13 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r addewidion a amlinellwyd yn y ddogfen strategol 'Cynllun i Gymru 2001' mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru? (OAQ19657)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym wedi gwneud cryn gynnydd yn y gwaith o gyflawni targedau'r gwasanaeth iechyd ar gyfer 2003-04 a amlinellwyd yn 'Cynllun i Gymru 2001'. Er enghraifft, disgwyliwn fynd heibio i darged niferoedd y meddygon a'r nyrsys dan hyfforddiant, ac yr ydym wedi cwtogi amserau aros ar gyfer llawdriniaethau cardiaidd, cataract ac orthopedig yn unol â'r targedau a osodwyd.

### Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (Menter Cyllid Preifat)

**C14 Alun Cairns:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae'n bwriadu defnyddio'r fenter cyllid preifat i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ19661)

**Prif Weinidog Cymru:** Byddaf yn parhau i ystyried y defnydd a wnewn ar y fenter cyllid preifat mewn modd pwyllog. Defnyddir y fenter cyllid preifat pan fo'n addas ac yn rhoi gwerth am arian.

### Darpariaeth o Feddygon Teulu

**C15 Janet Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â darpariaeth meddygon teulu yn ardal De-orllewin Cymru? (OAQ19671)

Daw'r data diweddaraf o 30 Medi 2001, sef dyddiad y cyfrifiad llawn diwethaf, a phryd hynny yr oedd 298 o feddygon teulu unigol digyfyngiad yn gweithio yn ardal awdurdod Iechyd Morgannwg Health. Y mae hyn gyfwerth â 281 o feddygon amser cyfan. Ar gyfartaledd, mae gan bob meddyg teulu amser cyfan 1,852 o gleifion. Mae hyn i'w gymharu â chyfartaledd o 1,818 o gleifion i bob meddyg teulu amser cyfan yng Nghymru.

O'r 298 meddyg teulu yn awdurdod Iechyd Morgannwg Health, mae 30 y cant yn fenywod, 16 y cant yn gweithio rhan amser, 16 y cant yn 55 oed neu'n hŷn a 5 y cant yn gweithio ar eu pennau eu hunain.